# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 13eg o Fai, 2021 drwy 'Zoom', am 8:35 y.h., yn dilyn y cyfarfod blynyddol.**
**<u>Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.</u>**

**<u>Yn bresennol</u>** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Tegid Jones, Angela Williams, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Anwen Jones, Naomi Jones, Ceri Jones, Darren Morley a'r Clerc.

**<u>Ymddiheuriadau</u>**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Gareth O. Davies, Sion Aled Jones, a Trefor Wyn Jones.

## <u>Cyfarfod Blynyddol (yn cychwyn 8.15 y.h. am yr 20 munud cyntaf)</u>

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 18fed o Fehefin, 2020 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 13.05.2021).
3. Materion yn codi o'r cofnodion – dim.
4. Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2020 i'r 31ain o Fawrth, 2021 gan y Cadeirydd. Eglurodd ei bod yn gyfnod tra wahanol mewn hanes yn sgíl y pandemig, ond er hynny fe lwyddwyd i barhau gyda'r gwaith arferol i gyd drwy ddefnyddio technoleg'zoom' yn benodol. Fe wnaed yr holl waith cynnal a chadw yn ol yr arfer, trafod ceisiadau cynllunio a'r ceisiadau am gymorth ariannol er gwaethaf y sefyllfa. Diolchodd i bawb am ei cymorth.
5. Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2020 i'r 31ain o Fawrth, 2021 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2021, a byddent yn barod i gael ei anfon i gael ei archwilio.

Dechrau Ebrill 2020 roedd cyfanswm o £12,321.59 yn y 3 cyfrif.
Erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd y cyfanswm yn £13,496.92 yn y 3 cyfrif.
Y prif wariant yn ystod y flwyddyn oedd:-

- Rhodd o £1500.00 tuag at PPE, Tý Doctor, Nefyn.
- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £1,113.65 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £207.48.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £3996.20 gan gwmni Lightsource a oedd yn £44.81 yn fwy na'r flwyddyn cynt.

Fe dalwyd £8,100.00 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a £2789.90 o'r cyfrif Lightsource, sef cyfanswm o £10,889.90 rhwng y ddau gyfrif. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi mewn 3 pentref, gwasanaeth O Ddrws I Ddrws, mynwentydd lleol, cylchoedd meithrin, clybiau lleol, neuadd a Menter y Plu.
Y gobaith yw y gellir parhau i osod arwyddion pontydd yn y gymuned, er mwyn cadw'r enwau ar gof a chadw yn y dyfodol.
Roedd y praesept o £18,000.00 er mwyn galluogi gwneud mwy i'r gymuned.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant yn sgíl argymhelliad gan yr archwiliad allannol. Diolchodd y Clerc i bawb am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau, ond nid oedd neb yn bresennol.

7. Ethol swyddogion am y flwyddyn 1af Ebrill, 2021 i 31ain o Fawrth, 2022:
a) **Cadeirydd- y Cynhorydd Tegid Jones** (bydd angen trefnu i lofnodi ffurflen datgan derbyn swydd).
b) **Is gadeirydd- y Cynghorydd Angela Williams** (bydd angen trefnu ffurflen llofnodi datgan derbyn swydd).
c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol- Bethan Parry Jones - dim newid.
ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy, bydd angen trefnu i Sian Parry a Darren Morley fod yn ychwanegol i allu llofnodi siec pan fydd angen ym mhwyllgor mis Rhagfyr.
8. Cadarnhawyd nad oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor.
9.Dewis cynrychiolydd i:-
Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – yr Is-Gadeirydd Angela Williams.
Grwp Mynediad Dwyfor – penderfynwyd gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog barhau i fod ar y grwp.
Diolchwyd i'r cyn Gadeirydd y Parchedig Aled Davies a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

## 1. CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (cychwyn am 8:35 y.h.)

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1af o Ebrill 2021, (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 13.05.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Ebrill 2021 –
(roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 13.05.2021).

4. **Datgan buddiant personol –** (y Clerc wedi anfon copi electroneg at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod).

**Cynghorydd Anwen Jones,** datgan buddiant personol o dan rhif 6a, sef cais cynllunio Betws Bach, Ynys oherwydd ei bod yn berchen ar yr eiddo ac yn bartner yn y busnes.

**Cynghorydd Naomi Jones,** datgan buddiant personol o dan rhif 6a, sef cais cynllunio Betws Bach, Ynys oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r eiddo.

**Cynghorydd Sian Parry,** datgan buddiant personol o dan rhif 6b, sef cais cynllunio Fferm Trefan, Llanystumdwy oherwydd ei bod yn byw yn y cyfeiriad.

**Cynghorydd Thomas Prys Jones,** datgan buddiant personol o dan rhif 14, sef cais i drafod prisiau y llwybrau/cae chwarae Llangybi oherwydd fod un o'r ymgeiswyr yn gymydog iddo ac yn cadw ei lori a'i offer ar ei dir.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

a) Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a ffordd mynediad Ynyswen, Llangybi ar y 12fed o Fai, 2021-gwaith adnewyddu 'stop tap'ar hyd y ffordd.**Derbyn**
b) Rhybudd – Cau'r Ffordd Dosbarth III, Pencaenewydd o goed Trallwyn at Bwlch Ffordd Isaf, ar 12fed o Fai 2021-gwneud y gwaith wnaed dros dro yn flaenorol nawr yn barhaol. **Derbyn**.
c) Tŷ Newydd, Llanystumdwy – traeniad am oddeutu 3 diwrnod gan Adran Priffyrdd, yn ystod mis Mai 2021-dim dyddiad penodol wedi ei nodi. **Derbyn**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

**a) Cais rhif C21/0181/35/LL - Betws Bach, Ynys, Cricieth LL52 OPB** - adeiladu 2 do newydd. Un dros storfa biswail/tail presennol a'r ail dros iard wartheg presennol. Roedd yr Adran Cynllunio wedi anfon y cais yma at Cyngor Tref Cricieth mewn camgymeriad, felly fe wnaeth y Clerc anfon llythyr atynt i gwyno a'i hysbysu, ac maent wedi anfon y cais at Gyngor Cymuned

Llanystumdwy wedyn i'w ystyried yn y cyfarfod yma. **Cefnogi'r cais**, a chwyno eto i'r Pennaeth Cynllunio a'r Arweinydd Portffolio Cynllunio fod y cais wedi cael ei anfon i'r Cyngor anghywir.

**b) Cais rhif C21/0342/41/LL – Fferm Trefan, Llanystumdwy LL52 0LP** – to dros iard fferm a tho dros storfa dail bresennol. **Cefnogi**.

**c) Cais rhif C21/0420/41/LL - Capel Moriah, Llanystumdwy, LL52 0SH** – newid defnydd cyn gapel yn dý annedd. **Dim gwrthwynebiad.**

7. **Asesiad risg** Cyngor Cymuned Llanystumdwy – y Clerc wedi gwneud ffurflen asesiad risg, ac wedi ei hanfon at y cynghorwyr am sylwadau, er mwyn ei roi ar wefan y Cyngor, ac i'w ddiweddaru'n flynyddol fel bydd angen. **Trafodwyd y ddogfen yn y Pwyllgor Polisi oedd o flaen y prif gyfarfod a gofynwyd i'r Clerc wneud ambell i newid ar y ddogfen, a'i rhoi ar y rhaglen eto fis nesaf.**

**Materion yn y gymuned**.

8. **Arwyddion dim ysbwriel drwy'r gymuned** – y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd i dynnu sylw fod llawer o sbwriel yn cael ei adael/daflu ar hyd ochrau ffyrdd a llecynau parcio o amgylch y gymuned.
Y rhai amlycaf oedd:-
Pencaenewydd/ Llangybi / Llanarmon
Ar draws y lon i Ffatri Laeth, Rhydygwystl,
Lon rhwng cyffordd Tyddyn Gwyn a chyffordd Ranch Llanystumdwy
Mae llawer o'r sbwriel yn ganiau/poteli diod, cardfwrdd/plastic ac yn edrych fel pe byddent wedi cael ei taflu drwy ffenstri ceir.

Mae hefyd broblem o – adael sbwriel yn 'slei bach' yma ac acw, yn benodol dros bont **Bryn Beddau, Rhoslan**-sachau duon a rhewgell (ac fe anfonwyd llun atynt drwy ebost).

Mae nifer o drigolion yr ardal wedi bod yn casglu sbwriel rhwng Pencaenewydd a Llangybi, ond y teimlad oedd fod angen gwneud rhywbeth i atal y broblem.
Gofynwyd tybed a fyddai'n bosib gosod mwy o arwyddion o amgylch yr ardal mewn mannau penodol, neu a fyddai'n iawn i'r Cyngor Cymuned osod rhai ein hunain?
Argymhellwyd bod angen addysgu'r cyhoedd, a chreu mwy o ymwybyddiaeth rhywsut.
Hefyd gofynwyd beth oedd y camau mae Cyngor Gwynedd yn ei gymryd i geisio datrys y broblem ond nid oedd ateb wedi cael ei dderbyn eto. **Gofynnwyd i'r Clerc holi eto.**

8. **Llanystumdwy**
**Cynghorydd Naomi Jones** – derbyniwyd ebost yn dweud ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd Ward Llanystumdwy, ond ei bod yn fodlon dal ati fel Cynghorydd nes bydd rhywun newydd wedi'i benodi / ei phenodi - hyd yn oed os ydi hynny'n golygu dal ati tan gyfarfod blynyddol 2022. **Cytunwyd y byddai'n fodlon parhau i fod yn Gynghorydd tan fis Mai 2022, sef diwedd y tymor. Y Clerc wedi cadarnhau hyn hefo Mr Raymond Harvey, Swyddog Cofrestru ac roedd yn cytuno byddai hyn yn iawn.**

9. **Rhoslan/Ynys**
10. **Chwilog**
a) **Llwybr sy'n cysylltu'r Lon Goed â fferm Chwilog Fawr**- y Cynghorydd Aled Evans wedi cysylltu hefo Mr Dewi Owen, Cyngor Gwynedd i holi os oes modd trwsio'r bont, oherwydd ei bod yn lwybr poblogaidd. **Angen i'r Clerc anfon llythyr hefyd atynt.**

b) **<u>Parcio yn Chwilog</u>** – angen trafodaeth, pryder oherwydd y cynnydd mewn tai yn y pentref, ac y bydd yn anodd parcio yno pan fydd pethau yn cael ei cynnal yn y capeli a'r neuadd. **<u>Angen anfon llythyr at yr Adran Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd i holi</u>**.

<u>c) **Bin baw cwn ar y Lon Goed ger Cefn Coed, Chwilog**</u> - angen ei wagio, y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd ac wedi cael gwybod nad Cyngor Gwynedd na'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am ei wagio. <u>Dywedodd Mr Alan Hughes, Warden Gorfodaeth y byddai'n cysylltu hefo'r person perthnasol.</u>

ch) **<u>Parcio yn Glan y Wern</u>** – wedi derbyn sawl cwyn yn dweud fod dau gar yn parcio drwy'r dydd a nos ar y llinellau dwbwl. Y Clerc wedi hysbysu Adran Priffyrdd i ofyn os gall rhywun fynd yno i ddatrys y broblem. **<u>Cadw golwg ar y sefyllfa ac anfon ebost arall i holi os na fyddai'r sefyllfa wedi ei datrys.</u>**

11. **<u>Pencaenewydd/Sardis</u>**
**<u>Safle pasio, 'lay by'</u>**- cais i ofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **<u>Y Clerc am holi.</u>**

12. **<u>Llangybi</u>**
**<u>Cae chwarae</u> –** Rheoliadau Gwahardd Ysmygu Cymru wedi dod i rym ers 01.03.21, felly mae gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a meysydd chwarae. <u>Y Clerc wedi cysylltu âg Amanda Murray, Cyngor Gwynedd ac mae am anfon arwydd pwrpasol at y Clerc. **Derbyn**.</u>

13. **<u>Enwau lleol</u> -** Y Clerc wedi trafod hefo Mr Osian Richards, Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd, ac roedd yn dweud byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon gosod yr arwyddion ar y 4 pont yn ddi-gost i'r Cyngor Cymuned, er mwyn iddynt gael ei gosod mewn man addas, ac o ran diogelwch.
Fe wnaeth y Cynghorydd Aled Evans a'r Clerc gyfarfod â Mr Osian Richards, i weld y pontydd i drafod lleoliad yr arwyddion, yn ystod pnawn 12.05.2021.
**<u>Penderfynwyd gwneud rhestr o'r arwyddion pontydd eraill a wnaed llynedd, a'i trafod fis nesaf er mwyn ei gwneud hefo'i gilydd. Hefyd, mae angen penderfynu ar y sillafiad cywir, yna gellir trefnu i archebu'r arwyddion wedyn, gan Llechi'r Ddraig ar ôl y cyfarfod nesaf.</u>**

14. **<u>Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2021 ymlaen</u>**.
*Roedd y gwaith wedi cael ei <u>hysbysebu ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 07.05.2021, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod fis Mai.</u>* **<u>Fe drafodwyd y prisiau, ac roedd y Clerc wedi anfon y prisiau a dderbyniwyd at y Cynghorwyr o flaen y cyfarfod, ac wedi dangos y ceisiadau i'r Cadeirydd yn ystod pnawn 13.05.2021.</u>**

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
**<u>Cytunwyd i ofyn wrth Mr Clifford Hughes wneud y llwybrau uchod am y flwyddyn tan Ebrill 2022.</u>**
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
**<u>Cytunwyd i ofyn wrth Mr Gareth Jones ofalu am y bedd tan Ebrill 2022.</u>**

f. Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi (*cytundeb a wnaed 3 mlynedd yn ol o 2018 wedi dod i ben).*
**<u>Cytunwyd i ofyn wrth Mr Rhys Jones i ofalu am y cae chwarae tan Ebrill 2022, ac os byddai popeth yn iawn byddai gweddill ei gontract yn parhau tan Ebrill 2024.</u>**

**Gofynwyd i'r Clerc ofyn Mr Clifford Hughes a Mr Rhys Jones am bris i wneud y gwaith yn Maenywern, Llanystumdwy hefyd cyn ein cyfarfod nesaf.**

15. **Glanhau llochesi bws** – wedi derbyn 2 bris, Spick'n'Span, a Criccieth Cleaning. **Cytunwyd i ofyn wrth Criccieth Cleaning wneud y gwaith, unwaith bob tri mis tan diwedd Mawrth 2023.**

**Materion Ariannol**

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 13.05.2021. Roedd hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Roedd y Clerc wedi mynd â'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod.
Hefyd, cadarnhawyd fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor/Pwyllgor, ac felly roedd y Clerc yn gallu anfon y wybodaeth at yr archwiliwr mewnol.

17. **Praesept** – wedi derbyn y taliad cyntaf o £9,000.00 ar 27.04.2021.

18. **Cyflog Clerc:**- Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC/ALCC ar 26.08.2020, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Felly mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, o'r raddfa cenedlaethol SCP. Hefyd, i gymhlethu pethau, 2 flynedd yn nol fe wnaethant newid y rhifau sydd ar y raddfa cyflog o ddechrau Ebrill 2019, oherwydd y 'cyflogau byw cenedlaethol'. Felly bydd cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, yn lle 18 – 22, o'r raddfa cenedlaethol SCP.

Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2021 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 9 i pwynt 10, sef o £10.83 i £11.05 yr awr, x 35 awr y mis = £386.75**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **Cyflog**

1.1 "Mae eich cyflog yn unol â phwynt cyflog NJC ar gyfer clercod rhan amser sef ar raddfa LC1 – SCP 18-22.

**1.2** Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."

**Cytunwyd fod hyn yn foddhaol a bod y graddfa cyflog yn codi i pwynt 10, £11.05 yr awr.**

19. **Cyfeillion Capel Bethania, Pistyll, sef capel Tom Nefyn** – apél am arian i achub y capel, (drwy 'gofundme') ymgyrch i brynu'r adeilad hanesyddol - llythyr wedi ei dderbyn drwy'r post, ac yn mynd ar werth drwy ocsiwn ar 14.05.2021. (*Nid oes cerdyn banc ar gael chwaith gan y Cyngor i wneud taliad drwy 'gofundme'*). **Gwrthod a gadael y mater ar y bwrdd**.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 13.05.2021:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Delwedd | Costau Lletya Blynyddol (Llanystumdwy 005) | **411.38** | **82.28** | **493.66** | **493.66** |
| Cyngor | Gwagio baw bin cwn, Chwilog | **87.75** | **17.55** | **105.30** | **105.30** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | rhwng 15.10.20-31.03.21 | | | | |
| ICO 'Swyddfa Gwybodaeth Comisiynydd' | Cofrestru hefo'r Swyddfa Comisiynydd Diolgelu Data-(mae hwn yn mynd i gael ei dalu drwy ddebyd uniongyrchol 22.05.21) | **35.00** | | **35.00** | **35.00** |
| Zurich Municipal | Yswiriant blynyddol rhwng 01.06.2021-31.05.2022 (506257511) | **667.41** | **80.09** | **747.50** | **747.50** |

Cyflog mis Ebrill 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS :- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2021 35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 - Llai treth £77.35 = £309.40 | **309.40** | **309.40** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2021 | 386.75 x 20% = £77.35 | **77.35** | **77.35** |
| Costau'r Clerc Ebrill 2021 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 03.06.2021.